**LGH-11-00 (min)**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 1 Tachwedd 2000 |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Edwina Hart | Gwyr |
| (Gweinidog) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr (ar wahân i eitemau 7 ac 8) |
| Alison Halford | Delyn |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Winston Roddick | Cwnsler Cyffredinol (eitem 3) |

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Y Grp Llywodraeth Leol (eitemau 3 i 6) |
| Norma Barry | Yr Is-adran Perfformiad a Chyllid Tai (eitem 4) |
| Howard James | Yr Is-adran Perfformiad a Chyllid Tai (eitem 4) |
| John Bader | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 5) |
| Ian Layzell | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 5) |
| Judy Wayne | Ymgynghorydd arbenigol (eitem 6) |
| Shan Wilkinson | Partneriaeth Gorllewin Wrecsam (eitem 7) |
| John Gallanders | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (eitem 7) |
| Mike Simkins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (eitem 7) |
| Francis Cairns | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd (eitem 7) |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Martin Stevenson | Clerc |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Davies.

**Eitem 2: Datganiad o fudd**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad gan y Gweinidog: LGH-11-00 (td.1)**

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog egluro'r berthynas rhwng ei rôl fel Gweinidog dros Gyllid a'i rôl fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am lywodraeth leol a thai, yn unol â'i haddewid yn y cyfarfod ar 18 Hydref. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cael cyngor cyfreithiol ar y mater hwn, a gwahoddodd y Cwnsler Cyffredinol i nodi ei farn.

3.2 Dywedodd Winston Roddick fod Deddf Llywodraeth Cymru a'r Rheolau Sefydlog gyda'i gilydd yn dangos bod y Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol, y naill a'r llall, wedi ystyried nid yn unig y gallai Gweinidogion a phwyllgorau pwnc gyfuno mwy nag un maes cyfrifoldeb o fewn eu portffolios, ond y byddai gofyn iddynt wneud hynny os oedd yr holl feysydd cyfrifoldebau y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol swyddogaethau ynddynt i gael eu rhannu rhwng y pwyllgorau pwnc.

3. Yng ngoleuni'r farn honno, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei bod yn dilyn:

- Ei bod yn debygol iawn y byddai yna o fewn portffolios feysydd cyfrifoldebau sy'n cystadlu â'i gilydd;
- Er bod yna botensial i greu gwrthdaro buddiannau o gael mwy nag un maes cyfrifoldeb o fewn yr un portffolio, mae Deddf Llywodraeth Cymru a'r Rheolau Sefydlog yn cydnabod hyn heb geisio ei atal;
- Mae'r Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried mewn Gweinidogion ac yn y pwyllgorau pwnc i ddewis yn gyfreithlon rhwng buddiannau sy'n gwrthdaro;
- Os gellid ymddiried yn y pwyllgor pwnc i benderfynu rhwng buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd, yna gellid ymddiried yn y Gweinidog hefyd i wneud hynny.

- Nid oedd y ffaith bod gan bwyllgor pwnc neu Weinidog feysydd cyfrifoldebau a allai wrthdaro â'i gilydd o fewn y portffolio ohoni ei hun felly yn rheswm i beidio â chyfuno'r ddau gyfrifoldeb.

3.4 Dywedodd Winston Roddick ei fod wedi ymgodymu â'r cwestiwn yngln â rôl y Gweinidog dros Gyllid yn bwrw golwg dros geisiadau a gyflwynir iddi ar ran y pwyllgor pwnc. Teimlai fod potensial ar gyfer gwrthdaro ymddangosiadol neu wirioneddol ymhlyg yn hyn. Fodd bynnag, roedd hynny'n anwybyddu rôl swyddogion, nad effeithir arnynt gan wrthdaro o'r fath a byddent yn archwilio'r ceisiadau'n drylwyr cyn rhoi cyngor annibynnol i'r Gweinidog. Rhoddai hyn amddiffyniad effeithiol yn erbyn arfer y grym yn amhriodol. Roedd y ffaith bod y Gweinidog dros Gyllid yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi sicrwydd pellach. Ar y cyfan, teimlai'r Cwnsler Cyffredinol bod yna ddigon o rwystrau a gwrthbwysau i sicrhau bod yr hawl nacáu hon yn cael ei defnyddio'n briodol gan y Gweinidog dros Gyllid.

3.5 I grynhoi, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn tybio ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r Llysoedd yn ymyrryd i darfu ar y penderfyniad i ddyrannu atebolrwydd ym meysydd llywodraeth leol a thai i'r Gweinidog dros Gyllid

3.6 Derbyniodd y Pwyllgor fod dyrannu cyfrifoldeb am faterion llywodraeth leol a thai i'r Gweinidog dros Gyllid yn gyson â Deddf Llywodraeth Cymru a'r Rheolau Sefydlog. Er hynny, teimlai rhai Aelodau nad oedd yn briodol cyfuno swyddogaeth gyllid hollgwmpasog y Gweinidog gyda maes cyfrifoldeb mwy penodol. Nodwyd fodd bynnag y byddai cyfle i'r Aelodau archwilio penderfyniadau'r Gweinidog. Roedd y ffaith bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd gymeradwyo'r gyllideb yn amddiffyniad pellach.

3.7 Diolchodd y Cadeirydd i'r Cwnsler Cyffredinol a dywedodd ei bod yn sir y byddai'r Gweinidog yn cymryd ei gyngor i ystyriaeth. Yng ngoleuni'r cyngor hwnnw, cytunwyd y gallai'r Pwyllgor fwrw ymlaen â'i fusnes.

3.8 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad i'r Pwyllgor. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Strategaeth Dai arfaethedig ar gyfer Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yn rhoi ystyriaeth lawn i'r adroddiad 'From the Margins to the Centre', a roddodd i'r Cynulliad Cenedlaethol olwg gyffredinol ar anghenion tai pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.
- Nodwyd bod y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog i gadarnhau barn y Pwyllgor y dylai cyfiawnder yr ifanc ymddangos ochr yn ochr a diogelwch y gymuned ym mhortffolio'r Gweinidog. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi codi'r mater gyda'r Prif Ysgrifennydd. Yn fwy cyffredinol, cytunwyd i ryddhau i'r Pwyllgor yr adroddiad ar gynlluniau i ostwng lefel troseddu a oedd wedi'i gyflwyno i Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd.
- Dywedodd Edwina Hart y byddai'n gweithio gyda'r Cyngor Partneriaeth i gyfrannu tuag at adolygiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd o'r modd y mae cyrff atal llifogydd yn gweithio yng Nghymru. Cytunodd y Gweinidog i roi gwybodaeth ddiweddaru i'r Pwyllgor am y gwaith hwn.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod wrthi yn dechrau ystyried cynnwys Mesur Llywodraeth Leol arfaethedig y Cynulliad, a fyddai'n gweithredu'r fframwaith deddfwriaeth sylfaenol a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Câi'r Mesur ei dywys yn ei flaen heb fod ynghlwm wrth yr adolygiad annibynnol o systemau pleidleisio posibl ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, gan ei bod yn debygol y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i weithredu casgliadau'r Cynulliad o'r adolygiad.

**Eitem 4: Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai: LGH-11-00 (td.2)**

4.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog mai ei chynnig allweddol oedd y dylid

ymgynghori ag awdurdodau lleol ar y canllaw sy’n cael ei gynnig o godiad rhent o 4.5% ar gyfer 2001-02 i ddibenion Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd rhywfaint o bryder yngln â gosod y canllaw ar gyfer codiadau rhent uwchlaw cyfradd chwyddiant. Dywedodd y Gweinidog fod rhai mesurau chwyddiant yn rhedeg yn uwch na 3 y cant ar hyn o bryd. Mater i awdurdodau lleol fyddai penderfynu ar lefel wirioneddol y codiadau rhent, yn unol â’u blaenoriaethau eu hunain. Fodd bynnag, byddai gosod y canllaw ar 4.5 y cant yn unol â rhagdybiaeth y Trysorlys yn gwneud y mwyaf o allu’r awdurdodau i wario ar waith atgyweirio a gwelliannau i’w stoc. Wrth wneud y cynnig hwn, dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymwybodol o gyflwr gwael stoc tai awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Pe câi’r canllaw o ran codiadau rhent ei osod ar 4.5 y cant, teimlai Aelodau y dylai fod yna fecanwaith i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu neilltuo i fynd i’r afael â’r gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd wedi cronni. Fe’i gwnaed yn glir gan y Gweinidog mai’r awdurdodau lleol unigol sy’n gyfrifol am gynnal a chadw eu stoc tai, ac y byddai etholwyr yn lleol yn edrych yn fanwl ar y ffordd y mae pob awdurdod yn gweithredu.
- Yr oedd pryder yngln â’r gwahaniaethau rhwng lefelau rhent yn ardaloedd rhai awdurdodau lleol, ac mewn llawer o achosion roedd hynny’n adlewyrchu’r newidiadau o ran ffiniau a achoswyd gan ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996. Nid oedd yna unrhyw wybodaeth bendant yngln â chydgyfeirio rhenti, ond dywedodd Adam Peat fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar gynghorau i gymryd lefelau’r farchnad i ystyriaeth wrth osod rhenti. Dylai hyn sicrhau cydgyfeiriant yn lefelau rhent tai cyffelyb mewn ardaloedd cyffelyb.

Cytunodd y Pwyllgor â’r cynnig i ymgynghori ag awdurdodau lleol ar godiad rhent o 4.5 y cant fel canllaw ar gyfer 2001-02, gan y teimlid mai priodol yw cynyddu i’r eithaf yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw eu stoc tai. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth symud ymlaen i ymgynghori.

**Eitem 5: 'Rethinking Construction': Cynnydd a chynigion: LGH-11-00 (td.3)**

5.1 Cymeradwyodd y Gweinidog yr argymhelliad yn yr adroddiad 'Rethinking Construction' y dylai fod ymrwymiad ar draws y diwydiant i wella prosesau adeiladu yn barhaus. Roedd yn awyddus i’r Cynulliad Cenedlaethol, sy’n gwario tua £600 miliwn y flwyddyn ar adeiladu, osod esiampl a dangos i’r sector preifat y manteision posibl. Roedd yna sgôp i sicrhau gwell ansawdd a gwell gwerth am arian, er nad oedd gwell gwerth am arian o reidrwydd yn golygu’r opsiwn rhataf.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cymeradwyodd y Pwyllgor egwyddorion yr adroddiad 'Rethinking Construction' yn llwyr. Cytunwyd mai priodol yw edrych y tu hwnt i ddulliau adeiladu ac ystyried materion dylunio, megis ‘cartrefi oes’ ac effeithlonrwydd ynni. Roedd hefyd yn bwysig ystyried sut y gallai gwaith adeiladu fod o fudd i gymunedau lleol. Dywedodd John Bader y byddai egwyddorion 'Rethinking Construction' yn berthnasol i waith adnewyddu yn ogystal ag i adeiladu o’r newydd. Roedd mecanweithiau i sicrhau bod gwaith adeiladu yn dod â budd i’r economi lleol yn cael eu hystyried yng nghyd-destun ‘Rhoi Cymunedau’n Gyntaf’.
- Teimlid bod angen rhoi gwarantau cryfach i ddefnyddwyr yng nghyd-destun gwaith adeiladu o’r newydd. Dywedodd John Bader na fyddai 'Rethinking Construction' yn ymdrin â’r pwynt hwn yn uniongyrchol, er y byddai’n help i ostwng nifer y diffygion. Nodwyd bod Ffederasiwn y Pen-adeiladwyr wrthi ar hyn o bryd yn treialu cynllun Nod Ansawdd yn Lloegr.
- Nodwyd bod awdurdodau lleol yn gwario symiau sylweddol, un ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol drwy grantiau, ar waith adnewyddu ac atgyweirio. Roedd awdurdodau, fodd bynnag, yn amharod i gadw rhestrau o adeiladwyr a gymeradwyir, gan fod risg y gallent hwy fod yn atebol pe bai problemau’n codi gyda’r gwaith. Awgrymwyd y dylid ystyried sut y gellid annog awdurdodau i gadw rhestrau o gontractwyr adeiladu a gymeradwyir, gan y byddai hynny’n ffordd bwysig o annog cwmnïau da.
- Yr oedd pryder yngln â diogelwch yn y diwydiant adeiladu. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chynrychiolwyr y diwydiant adeiladu i gyfarfod yn y dyfodol i drafod materion iechyd a diogelwch.

5.3 Nododd y Pwyllgor y papur a chymeradwyodd y cynnig i gael adroddiad cynnydd pellach ym Mehefin 2001. Cytunwyd hefyd y byddai’r Gweinidog yn dod â phapur gerbron maes o law yn ymdrin â’r ystyriaethau ehangach a godwyd, gan gynnwys cartrefi oes, effeithlonrwydd ynni, lledaenu buddion gwaith adeiladu i gymunedau lleol a gwell amddiffyniad i’r defnyddiwr. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n ymgynghori ag Aelodau’n anffurfiol ar strwythur amlinellol ar gyfer y papur hwn.

**Eitem 6: Adolygiad polisi ar drosglwyddo stoc tai: LGH-11-00 (td.4)**

6.1 Cyn trafod y papur hwn, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar drosglwyddo stoc tai. Mae copi o’r datganiad hwn ynghlwm yn **Atodiad 1**. Croesawodd yr Aelodau y datganiad gan ei fod yn egluro polisi’r Cabinet ar drosglwyddo stoc tai. Yng nghyd-destun yr adolygiad polisi, cytunwyd y byddai’r datganiad yn help i hoelio’r sylw ar y dewisiadau amgen er moderneiddio stoc tai cynghorau.

6.2 Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai’r ymgynghori ar y canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar drosglwyddo stoc yn parhau. Byddai trosglwyddo stoc yn parhau i fod yn opsiwn i awdurdodau lleol, felly byddai’r angen am arweiniad ar y broses yn parhau.

6.3 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd Judy Wayne mai'r prif themâu i ddeillio o'r ymarferiad ymgynghori oedd:

- Roedd llawer o'r rheini a ymatebodd yn awyddus y dylai fod ystod o opsiynau ar gael a fyddai'n sicrhau buddsoddiad ychwanegol mewn tai cyngor.
- Mynegwyd cefnogaeth i drosglwyddo stoc gan y Sefydliad Siartredig Tai, Cyngor y Benthycwyr Morgeisi a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Roedd UCATT ac UNSAIN yn gwrthwynebu trosglwyddo stoc.
- Mynegwyd cefnogaeth i weithredu drwy Fenter Cyllid Preifat (PFI) gan y Sefydliad Siartredig Tai, Cyngor y Benthycwyr Morgeisi a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mynegwyd gwrthwynebiad i PFI gan UNSAIN.
- Roedd UCATT a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi mynegi cefnogaeth i drosi asedau yn warannau. Nodwyd bod gan awdurdodau lleol yr hawl i ddyroddi bondiau, a thybiwyd bod Cyngor Sheffield wedi gweithredu fel hyn. Gwahoddodd y Cadeirydd Judy Wayne i baratoi nodyn ar faterion dyroddi gwarannau a chyllido drwy fondiau, gan gynnwys y goblygiadau i Ofyniad Benthyca'r Sector Cyhoeddus.

- Yr oedd cefnogaeth o du'r Sefydliad Siartredig Tai, Cyngor y Benthycwyr Morgeisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Prydain i gwmnïau rheoli hyd-braich sy'n eiddo i awdurdodau lleol, fel a gynigiwyd yn y Papur Gwyrdd ar Dai. Fodd bynnag, nodwyd mai'r cynnig yn Lloegr oedd mai dim ond i awdurdodau sy'n rhagori y byddai'r opsiwn hwn ar gael, ac y byddai unrhyw wariant gan y cwmnïau hyn yn dal i sgorio fel gwariant cyhoeddus.
- Mynegwyd amrywiaeth barn am y model 'Perchenogaeth Gymunedol', lle byddai'r Bwrdd fel arfer yn cynnwys nifer gydradd o gynrychiolwyr a enwebwyd gan y cyngor, cynrychiolwyr tenantiaid ac aelodau annibynnol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ei gwneud yn glir nad ydynt o blaid model cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo stoc, ac na fyddent ond yn cefnogi fframwaith lle mae gofyn cael y nifer uchaf o gynrychiolwyr awdurdod lleol a ganiateir o dan reolau'r Trysorlys. Mynegodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y farn mai'r gymuned leol ddylai fod â'r mwyafrif o aelodau ar y Bwrdd.
- Roedd nifer o ymatebion wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori â thenantiaid a'r angen i denantiaid allu cyrchu at gyngor annibynnol.
- Roedd UCATT ac UNSAIN wedi mynegi pryder yngln ag effaith trosglwyddiadau stoc ar lefelau rhent, a hynny i denantiaid sy'n trosglwyddo wedi'r cyfnod cychwynnol o bum mlynedd o amddiffyniad ac i denantiaid newydd, fel ei gilydd.
- Codwyd nifer o bwyntiau eraill, er enghraifft, pryder yngln â disodli un landlord monopoli gydag un arall; sut y byddid yn ymdrin â dyledion sy'n cario drosodd a'r lefi trosglwyddo stoc; a'r angen i feithrin gallu yn y gymuned.

6.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd yr Aelodau'n siomedig yngln â lefel yr ymateb i'r ymarferiad ymgynghori.
- Roedd yr Aelodau'n teimlo i'r ymweliadau diweddar â Chymdeithas Tai Westlea a South Somerset Homes fod yn fuddiol. Roedd ymweliad pellach â Chymdeithas Tai Severn Vale yn yr arfaeth. Awgrymwyd y dylid trefnu ymweliad ag Ystâd Glyn-taf yn Rhondda Cynon Taf, a fu'n destun trosglwyddiad ar sail Dewis y Tenantiaid yn 1993. Yn ogystal, roedd yr Aelodau'n awyddus i ymweld â chyrff trosglwyddo stoc sy'n ymdrin ag ardaloedd lle mae yna broblemau amddifadiad difrifol, lle nad oedd yn debygol y byddai unrhyw dderbyniadau cyfalaf gwarged yn deillio o'r trosglwyddiad.

- Dywedodd y Gweinidog y byddai yna bapur ymgynghorol ar PFI yn gyffredinol. Dywedodd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gadw'r staff sy'n gweithio ar brosiectau PFI o fewn y sector cyhoeddus.

6.5 Nododd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cylchredeg cynigion yngln â pha gyrff y dylid eu gwahodd i'r sesiwn ymgynghori llafar a gynlluniwyd ar gyfer dydd Iau 23 Tachwedd.

**Eitem 7: Rhaglen Menter Gymunedol URBAN II: LGH-11-00 (td.5)**

7.1 Rhoddodd Partneriaeth Gorllewin Wrecsam gyflwyniad ar hynt Rhaglen Menter Gymunedol URBAN II yn Wrecsam. Eglurodd Shan Wilkinson fod ardal Gorllewin Wrecsam yn cynnwys nifer o gymunedau, pob un ohonynt wedi etifeddu sefyllfa o ddirywio diwydiannol, yn enwedig o ran y gweithfeydd dur (ym Mrymbo) a gweithfeydd glo. Er bod hyn wedi arwain at ystod o broblemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, nid oedd gan yr ardal statws Amcan 1, Amcan 2 nac Amcan 3.

7.2 Roedd ffocws strategaeth Gorllewin Wrecsam, sy'n ymdrin â'r ardal gyfan, ar greu diwylliant mentro. Y nod oedd creu cyfleoedd gwaith newydd, o fewn sectorau twf a thrwy ddatblygu busnesau sy'n bodoli'n barod, ac yna sicrhau y gallai pobl leol fanteisio ar y swyddi hynny. Eglurodd John Gallanders rôl Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam yn datblygu ymwneud y gymuned a hefyd yn meithrin gallu yn y gymuned.

7.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Dywedodd Shan Wilkinson fod Partneriaeth Gorllewin Wrecsam wedi bod mewn cysylltiad â’r rheini sy’n rheoli Rhaglen Menter Gymunedol URBAN I Townhill a Mayhill yn Abertawe. Roedd y Bartneriaeth wedi cael cyngor gwerthfawr ar ystod o faterion, gan gynnwys pwysigrwydd rheoli disgwyliadau, yr angen i gael pobl i gyfrannu ar lefel y gymuned, dethol arweinwyr cymunedol a’r angen i feithrin gallu yn y gymuned. Un o brif amcanion y rhaglen oedd sicrhau ymwneud y gymuned ac ymdeimlad o berchenogaeth oddi mewn iddi, er y cydnabyddid y byddai hyn yn cymryd amser.
- Pwysleisiodd y Bartneriaeth fod y rhaglen yn gwasanaethu nifer o gymunedau yng Ngorllewin Wrecsam, nid dim ond yr hen safle cynhyrchu dur ym Mrymbo. Roedd hyn yn cynnwys Brychdyn, Coedpoeth, Gwersyllt a Llai. Mae poblogaeth ardal Gorllewin Wrecsam oddeutu 28,000 o bobl.

- Nodwyd bod Cyngor Sir y Fflint wedi cefnogi cais Gorllewin Wrecsam yn rhaglen URBAN II. Nod y rhaglen oedd gwneud Gorllewin Wrecsam yn hunangynhaliol, er ei bod yn bosibl y byddai yna sgîl-fanteision y tu allan i’r ardal; er enghraifft, roedd Llai yn agos at y ffin â Sir y Fflint.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â’r angen am i bartneriaethau cymunedol fod yn gynrychiadol, yn enwedig o ran cyfraniad menywod. Teimlid nad oedd sgiliau menywod yn cael eu cydnabod bob amser. Dywedodd Shan Wilkinson mai menywod yn aml, yn ei phrofiad hi, oedd â’r egni, yr ymroddiad a’r weledigaeth i wneud newidiadau i’w cymunedau.
- Yn nhermau gwella’r stoc tai yng Ngorllewin Wrecsam, dywedodd Mike Simkins mai’r gobaith oedd y byddai’r ardal yn cael ei dynodi’n ardal adnewyddu tai yn fuan.

7.4 Diolchodd y Cadeirydd i Bartneriaeth Gorllewin Wrecsam am eu cyflwyniad gan ddymuno’n dda iddynt wrth symud y rhaglen yn ei blaen. Nodwyd bod Dogfen y Rhaglen i’w hystyried yn y cyfarfod llawn ar 14 Tachwedd.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref: LGH-10-00 (min)**

8.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref.

**Atodiad 1**

## DATGANIAD GAN Y GWEINIDOG DROS GYLLID, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU AR DROSGLWYDDO STOC TAI

Hoffwn wneud datganiad i'r pwyllgor am ein polisi yngln â'r posibilrwydd o drosglwyddo stoc tai awdurdodau lleol i sector y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Yn gyntaf, hoffwn ei gwneud yn glir, er gwaethaf yr argraffiadau i'r gwrthwyneb, na fu'n fwriad gan Lywodraeth Cymru erioed i wthio awdurdodau lleol i drosglwyddo eu stoc tai i sector y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ein pryder pennaf yw cyflwr gwael tai cymdeithasol yng Nghymru a gwn fod holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn rhannu'r pryder hwn.

Yn sgîl buddsoddi annigonol dros flynyddoedd lawer mae llawer o deuluoedd yng Nghymru yn byw mewn cartrefi sy'n disgyn islaw'r hyn y dylid ei ddisgwyl yn yr 21ain ganrif – cartrefi sydd yn aml wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n dioddef lefelau uchel o amddifadiad a lle mae'r amgylchedd o'u cwmpas yn dadfeilio oherwydd blynyddoedd o esgeulustra.

Rydym yn ymrwymo ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i fynd i'r afael â diffyg mantais cymdeithasol. Mae gwella amodau byw yn waelodol i hyn. Dylai fod gan bawb yr hawl i gartref sy'n cyrraedd safonau sylfaenol ein dyddiau ni. Mae hynny'n rhoi i bobl falchder a sylfaen y gallant adeiladu eu hyder ohonynt. Y broblem sy'n ein hwynebu yw'r arian enfawr sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r gwaith atgyweirio a'r gwelliannau sydd wedi cronni. Mae amcangyfrif ceidwadol o'r swm yn rhoi ffigwr uwchlaw £750 miliwn.

Rwyf yn falch i mi allu cynyddu'r Cyfalaf Tai yn fy nghynigion cyllideb drafft a gwrth-droi tuedd y 5 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn realistig o hyd yngln â gallu awdurdodau i ariannu buddsoddiad o'r fath a gallu'r Cynulliad i'w cynorthwyo yn y dasg hon pan fo cynifer o alwadau ar adnoddau. Nid yw'r broblem yn mynd i ddiflannu a gallai waethygu os yw'r lefelau buddsoddi yn annigonol i gyfateb i'r gyfradd dirywio.

Rydyn yn ymrwymo i fynd i'r afael â phroblemau ein cymunedau mwyaf difreintiedig, llawer ohonynt yn ystadau cyngor. Efallai y bydd yn rhaid i ni edrych ar y blaenoriaethau o ran dyrannu adnoddau. Mae angen i ni edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael.

Un yn unig o'r opsiynau hyn yw trosglwyddo stoc. Mae yna opsiynau eraill. Gall cynghorau, wrth gwrs, gadw eu tai cymdeithasol a pharhau i fuddsoddi'n gymedrol mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. Rydym yn gwneud popeth a allwn i'w cynorthwyo yn hynny o beth drwy'r Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai. Byddaf hefyd yn ymgynghori ar y posibilrwydd o gyflwyno lwfans atgyweirio mawr yn y Cyfrif Refeniw Tai fel rhan o'r ymgynghori ynghylch y Strategaeth

Dai Genedlaethol. Mewn rhai ardaloedd, gallai Menter Cyllid Preifat (PFI) fod yn briodol i ddelio â rhai problemau.

Efallai y gall rhai awdurdodau foderneiddio eu stoc gyda'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, mewn awdurdodau eraill, y realiti yw y byddent yn ei chael hi'n anodd darparu tai cyngor sylfaenol, teilwng heb iddynt orfod torri'n ôl yn llym ar wasanaethau eraill.

Rwyf am ei gwneud yn glir heddiw mai ein polisi ni yw annog awdurdodau lleol i wella'r stoc tai cyngor drwy ba ddull bynnag a ystyrir yn briodol ganddynt. **Nid**, a phwysleisiaf, **nid** eu hannog i drosglwyddo eu holl stoc i landlord cymdeithasol cofrestredig mo'r polisi.

Deallaf y rhesymau pam y teimlai'r Pwyllgor fod yn rhaid comisiynu adolygiad polisi ar drosglwyddo stoc tai. Ond mae'r ddeddfwriaeth i alluogi awdurdodau i fynd ar drywydd y broses yn ei lle ac felly, rydym ni, fel Llywodraeth Cymru, o dan rwymedigaeth i ddarparu arweiniad ar y broses. Mae'r arweiniad hwn wrthi yn cael ei baratoi a gobeithiwn ei gyhoeddi'n gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Rwyf fi a'm swyddogion yn falch o gyfrannu at adolygiad y Pwyllgor o'r polisi ar drosglwyddo stoc tai a byddaf yn barod i ystyried ei ganfyddiadau unwaith y bydd casgliadau wedi'u cyrraedd.

**Atodiad 2**

## CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 1 TACHWEDD

1. Yr adroddiad ar gynlluniau i ostwng lefel troseddu a oedd wedi'i gyflwyno i Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd.i gael ei ryddhau i'r Pwyllgor (paragraff 3.8).

2. Y Gweinidog i roi gwybodaeth ddiweddaru i'r Pwyllgor am y gwaith a wneir gan y Cyngor Partneriaeth i gyfrannu tuag at adolygiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd o'r modd y mae cyrff atal llifogydd yng Nghymru yn gweithio (paragraff 3.8).

3. Y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth ymgynghori ag awdurdodau lleol am y canllaw sy'n cael ei gynnig yngln â chodiadau rhent ar gyfer 2001-02 i ddibenion Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (paragraff 4.3).

4. Cynrychiolwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chynrychiolwyr y diwydiant adeiladu i gael eu gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod materion iechyd a diogelwch yn y

diwydiant adeiladu (paragraff 5.2).

5. Y Gweinidog i ddod â phapur cynnydd gerbron ar 'Rethinking Construction' ym Mehefin 2001 (paragraff 5.3).

6. Y Gweinidog i ddod â phapur gerbron maes o law yn ymdrin ag ystyriaethau amrywiol yn ymwneud ag adeiladu, gan gynnwys cartrefi oes, effeithlonrwydd ynni, lledaenu buddion gwaith adeiladu i gymunedau lleol a gwell amddiffyniad i’r defnyddiwr. Y Gweinidog i ymgynghori ag Aelodau’n anffurfiol ar strwythur amlinellol ar gyfer y papur hwn (paragraff 5.3).

7. Judy Wayne i baratoi nodyn ar faterion dyroddi gwarannau a chyllido drwy fondiau mewn perthynas â throsglwyddo stoc tai, gan gynnwys y goblygiadau i Ofyniad Benthyca’r Sector Cyhoeddus (paragraff 6.3).

8. Y Clerc i gylchredeg cynigion yngln â pha gyrff y dylid eu gwahodd i’r sesiwn ymgynghori llafar ar drosglwyddo stoc tai a gynlluniwyd ar gyfer dydd Iau 23 Tachwedd (paragraff 6.5).